

Cynllun Gweithredol Blynyddol
2019/20

— *Ein hymrwymiad* —

Ein Cenhadaeth

Datgloi potensial yn economi Cymru trwy gynyddu'r ddarpariaeth o gyllid cynaliadwy, effeithiol yn y farchnad.

Ein Gweledigaeth

Bod yn adnodd unigryw i Gymru, gan greu gwerth hirdymor a gwella economi ddeinamig a chystadleuol ar gyfer Cymru.

Ein Hamcanion Strategol


- Dod yn sefydliad conglfaen Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu cefnogaeth sector cyhoeddus i fusnesau micro i ganolig yng Nghymru a chynyddu'r cyflenwad cyllid.
- Cyflawni amcanion polisi allweddol Llywodraeth Cymru trwy gyflawni targedau perfformiad a darparu gwasanaethau rheoli buddsoddiad a darparu cymorth ar draws Llywodraeth Cymru gyfan.
- Hyrwyddo datblygiad economaidd trwy fodel cyflawni addasadwy sy'n ymateb i anghenion y farchnad tra'n darparu gwerth parhaus am arian cyhoeddus.

— *Ein Gwerthoedd* —

Agored

Cyfrifol


Partneriaeth




Perfformiad hyd yma

Yn 2017 ymrwymodd Banc Datblygu Cymru i gyflawni targedau cyflawni uchelgeisiol i greu effaith sylweddol ar economi Cymru. Dangosir cynnydd yn erbyn buddsoddiad uniongyrchol, y Trosodd o'r Sector Breifat (TSP), swyddi a grëwyd ac a ddiogelwyd, yn ogystal â'r effaith gyffredinol isod.


Cyfanswm Effaith - Creu £1bn o effaith




Buddsoddiad rhagweledig y flwyddyn



Trosodd sector breifat



Rhagolygon swyddi



Trosolwg

Mae'r cynllun busnes hwn yn adeiladu ar flwyddyn arall lwyddiannus i'r Banc Datblygu yn 2018/19 gyda £80m o fuddsoddiad i mewn i fentrau bach i ganolog yng Nghymru ac ymrwymadau ariannu newydd o £197m ar gyfer eu cyflawni yn y dyfodol. Ers ffurfio'r Banc Datblygu ym mis Hydref 2017 mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo dros £420m i gronfeydd newydd yng Nghymru. Yn 2018/19, sicrhodd y Banc Datblygu ei gyd-fuddsoddiad cyntaf ar lefel y gronfa o £10m o Gronfa Bensiynau Clwyd i Gronfa Olyniaeth Rheoli Cymru. Mae'r cronfeydd newydd hyn yn torri ar draws blaenoriaethau'r llywodraeth, o gymorth i fusnesau i ddechrau a thyfu, prosiectau ynni cymunedol, cefnogi buddsoddiad twristiaeth, yn ogystal ag adeiladu cartrefi fforddiadwy.

Mae Dirnad Economi Cymru bellach yn gwbl weithredol, ac mae'n cynhyrchu diweddariadau chwarterol rheolaidd ar ddangosyddion economaidd a chyllid BBaCh. Mae adroddiadau pwrpasol yn cael eu cynllunio yn 2019/20 ar gyfer olyniaeth reoli, y 'canol coll' a masnacheiddio ED y Brifysgol.

Mae FW Capital, cangen rheoli cronfa awdurdodedig AYA Grŵp Banc Cymru hefyd wedi cael blwyddyn lwyddiannus gan gyrraedd 97% o'i dargedau cyflawni ar ei bortffolio Cronfa, gan gryfhau ymhellach ei berthynas gref â Banc Busnes Prydain. Dangoswyd gwerth parhaus FW Capital yn glir yn 2018/19 gyda buddsoddiad o £1m wedi'i wneud o elw cronedig i Gronfa Achub ac Ailstrwythuro Cymru i gefnogi busnesau Cymru yn uniongyrchol. Er bod hyn i gyd yn newyddion da iawn i'r Banc Datblygu, ei randdeiliaid, ei berchennog a'i gwsmeriaid, nid yw'r Banc Datblygu yn cymryd llwyddiant yn ganiataol. Mae llawer mwy i'w wneud hyd ac mae angen i'r Banc Datblygu barhau i gyflawni'r safonau uchaf.

Mae'r economi mewn cyfnod o ansicrwydd hirfaith dros BREXIT a gallai tensiynau dros fasnach yr Unol Daleithiau â Tsieina gael ôl-ffeithiau ym marchnadoedd y DU. Fel y dangoswyd ar ôl 2008, ar gyfer cyfnodau o ansicrwydd y crewyd y Banc Datblygu i gynnig mynediad cyson a dibynadwy at gyllid i fusnesau Cymru i gefnogi eu huchelgais i oroesi a thyfu. Mae ei allu i weithredu'n llwyddiannus yn y band risg uwch hwn rhwng y galw a'r farchnad yn cael ei gyflawni trwy ei fodel risg buddsoddi aeddfed. Mae'r swyddogaeth hanfodol hon yn y model busnes yn galluogi'r Banc Datblygu i gydbwysu graddau uwch o risg, ac telly gallai fod yna ddiffygion uwch, gyda chyllid fforddiadwy.

Diolch i'r ymrwymadau ariannu a wnaed gan Lywodraeth Cymru, ac arbenigedd ac ymroddiad pobl y Banc Datblygu, mae'r Grŵp bellach wedi cyflawni, ym mlwyddyn dau, ei darged buddsoddi pum mlynedd fel y nodir yn achos busnes y Banc Datblygu. Ochr yn ochr â'r £80m a fuddsoddwyd yn 2018/19, cynorthwyodd y Banc Datblygu hefyd i greu a diogelu 3,748 o swyddi, gydag ychwanegiad pellach o £126m o'r sector breifat gan roi cyfanswm effaith marchnadol o dros £200m yn y 12 mis diwethaf, ar draws Cymru.



Huw Owens, A1 Eyewear, Wreccsam

Mae cynnig y Banc Datblygu wedi parhau i dyfu yng Nghymru gan greu nifer o Gronfeydd newydd yn 2018/19. Mae Cronfa Twristiaeth Cymru yn £50m a Chronfa Eiddo Masnachol Cymru gwerth £55m yn darparu enghreifftiau penodol o'r cydweithio agos â thimau Llywodraeth Cymru, lle darperir cyllid masnachol gan y Banc Datblygu ochr yn ochr ag arian grant a reolir gan Lywodraeth Cymru i greu pecynnau cymorth sy'n uniongyrchol yn diwallu anghenion busnesau. Yn ogystal, mae ymrwymiad i sefydlu Cronfa Hunanadeiladu Cymru newydd gwerth £40m a gaiff ei lansio yn 2019/20 ochr yn ochr â chynnydd parhaus mewn ffocws ar ficro-gyllid.

Roedd llwyddiannau nodedig eraill yn cynnwys, llwyddiant parhaus wrth gyflwyno cynllun Cymorth i Brynu Cymru gyda dros £73m wedi'i ddefnyddio, yn ogystal â sicrhau £23m ychwanegol o gyllid yr UE ar gyfer Cronfa Busnes Cymru. Yn ogystal, mae Angyion Buddsoddi Cymru wedi llwyddo i roi'r Gronfa Gyd-fuddsoddi Angylion ar waith gyda 4 prif fuddsoddwr gweithredol yn eu lle ac ychydig dan £500k wedi'i fuddsoddi hyd yn hyn.

Bydd y Banc Datblygu yn parhau i weithio'n agos gydag adrannau Busnes Cymru a Llywodraeth Cymru i alinio ei weithrediadau i gefnogi amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a chynllun gweithredu economaidd Ffyniant i Bawb. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi strategaeth ranbarthol newydd adran yr Economi, yn ogystal â gweithio ochr yn ochr â mentrau eraill Llywodraeth Cymru, fel eu Cronfa Drosgrlwyddo gwerth £50m yr UE, i ddarparu cymorth wedi'i deilwra i fusnesau Cymru wrth i'r DU baratoi i adael yr UE.

Unwaith eto eleni, bydd y banc yn gweithio tuag at dargedau uchelgeisiol gydag amcan buddsoddi cynyddol o £86m yn 2019/20, sydd bron yn dyblu darpariaeth y sefydliad ers 2014.

Bydd trawsnewid digidol yn ffocws craidd yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod gennym systemau a phrosesau sy'n effeithlon ac yn cynnig y lefelau uchaf o wasanaeth i gwsmeriaid gan gynnwys aliniad llawn â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Bydd yn bryd cwblhau buddsoddiadau o Gronfa Busnes Cymru a ariennir yn rhannol gan yr UE, bydd y Banc Datblygu yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau'r buddsoddiad gorau yn 2022 er mwyn sicrhau'r fargen orau i Gymru o Gronfa Ffyniant a Rennir y DU i ddisodli y cyfraniadau cyfredol o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (CDRhE)

Mae'r Banc Datblygu yn darparu ased cenedlaethol cryf i Gymru ac mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â'r heriau economaidd sydd o'n blaenau. Yn unol â'i Strategaeth Gorfforaethol 5 mlynedd, mae'r cynllun blynyddol hwn yn nodi amcanion allweddol y Grŵp dros y 12 mis nesaf.



Aimee Bateman a Lucy Heskins, Career cake, Caerdydd

Marchnad Cymru 2019

Mae'r Banc Datblygu wedi'i strwythuro a'i raddio i ymateb yn uniongyrchol i anghenion y farchnad yng Nghymru. Gan ddefnyddio ei fraich ymchwil Dirnad Economi Cymru, mae'n monitro gweithgarwch y farchnad yn weithredol er mwyn sicrhau strategaeth sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cymorth lle mae ei angen fwyaf, gan hybu datblygiad economaidd.

Gwaith

Mae 62% o gyflogaeth yng Nghymru mewn busnesau micro, bach a chanolig gyda chyfraddau diweithdra cyffredinol yn parhau'n isel.


Demograffeg busnes

Mae 259,000 o fentrau gweithredol yng Nghymru ac mae 99% ohonynt yn rhai micro, bach neu ganolig. Gwelwyd twf cryf mewn mentrau canolig eu maint yn y Gogledd a mentrau Micro yn y De Ddwyrain.


Buddsoddi mewn twf

Mae 40% o fusnesau bach a chanolig Cymru yn bwriadu aros yr un maint ac mae 31% yn bwriadu tyfu llai na 20% dros y flwyddyn nesaf. Mae 21% yn bwriadu tyfu mwy nag 20% ac mae chwyddiant yn agos at 2% er gwaethaf fod mynegeion hyder yn parhau i ostwng.


Cyfanswm swyddi wedi'u creu a'u diogelu gan BDC



Buddsoddiad BDC wedi'i rannu yn ôl nifer y buddsoddiadau 2018/19



Nifer buddsoddiadau BDC



Amcanion busnes - 2019/20

Cwsmeriaid

Cyflawni ar gyfer anghenion ein cwsmeriaid ...

- **Buddsoddiad** ar draws Cymru Gyfan o **£86m** yn sicrhau cysondeb a hyblygrwydd o ran cyllid yn ystod cyfnod Brexit
- Cynnal **dadansoddiad parhaus o'r farchnad** drwy DEC i lywio tueddiadau ac anghenion busnesau yng Nghymru
- Cyfuno marchnata aml-sianel ledled Cymru â rhaglen o ddigwyddiadau busnes a gweithdai i gynnal a **chynyddu ymwybyddiaeth** o'r gefnogaeth a ddarperir

Busnes mewnol

Trwy ragoriaeth weithredol ...

- Cyflwyno'r Rhaglen ar gyfer **trawsnewid digidol** i wella swyddogaeth cwsmeriaid ac ystwythder
- Neilltuo adnoddau i **wella prosesau busnes**, symleiddio a gwella systemau ar draws y sefydliad gan gefnogi twf sefydliadol
- Sicrhau **llywodraethu cadarn** a dealltwriaeth eang ar draws yr holl rwymedigaethau rheoleiddio a pharatoi ar gyfer gofynion yn y dyfodol yn unol â'r twf a ragwelir mewn gweithwyr

Ariannol

Darparu gwerth am arian a thryloywder...

- **Targedu datblygiad cynnyrch newydd** o £50m i gefnogi adrannau LIC yn unol ag uchelgeisiau'r CGC ac alinio ag amcanion y Contract Economaidd
- Rheolaeth agos ar fodelau costio ac etifeddiaeth i sicrhau **cynllunio ariannol strategol** cadarn ar gyfer y Banc Datblygu dros y 10 mlynedd nesaf
- Sicrhau **tryloywder a hygyrchedd llawn at wybodaeth** drwy'r cyfrifon blynyddol ac ymddangosiadau'r Pwyllgor

Twf sefydliadol

Creu effaith sefydliadol.

- **Datblygu a chefnogi ein pobl**, yn ogystal â denu doniau newydd trwy gyfrwng Brand Cyflogwr cryf
- Datblygu ymgysylltiad rhanddeiliaid ymhellach gan sicrhau bod **cydweithrediadau a phartneriaethau**, yn enwedig gyda'r sector breifat, yn cael eu hoptimeiddio
- Gweithredu **metrigau sy'n canolbwyntio ar effaith** o fewn Dangosyddion Perfformiad Allweddol ehangach i gasglu effaith ehangach gweithgaredd y Banc Datblygu.

Aliniad polisi Llywodraeth Cymru

Crëwyd y Banc Datblygu i helpu i gyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru. Ym mis Rhagfyr 2017, lansiodd Llywodraeth Cymru ei gynllun gweithredu Ffyniant i Bawb sy'n defnyddio nodau trosfwaol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i ganolbwyntio ar ymyriadau sydd eu hangen i roi i bobl a busnesau busnesau yr offer sydd eu hangen arnynt i lunio eu dyfodol eu hunain, ac yn eu tro Ffyniant Cymru gyfan. Yn 2019/20 bydd y Banc Datblygu yn cefnogi meysydd allweddol y cynllun hwn mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys y rhai a nodir isod

Ffyniant i bawb			
Cyfoeth a lles Darparu cyllid fforddiadwy ac ymarferol yn barhaus i fusnesau ddechrau, cynnal a thyfu gan greu cyfleoedd ar gyfer cyfoeth a lles i berchnogion a gweithwyr		Lleihau anghydraddoldeb Canolbwyntio ar grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol trwy farchnata a datblygu busnes gan gynnwys entrepreneuriaid benywaidd a phobl ifanc	
Cynllun Gweithredu Economaidd			
Cefnogi pobl a gyrru ffyniant Gweithio gyda pherchnogion busnes i gefnogi uchelgais eu busnesau	Sgiliau ar gyfer byd sy'n newid Gyrru arloesedd trwy gymorth i gwmnïau technoleg sbarduno a thwff	Canolbwyntio ar dwf cynaliadwy hirdymor Cyfalaf amyneddgar trwy fuddsoddi benthyciadau ac ecwiti i gefnogi busnes gyda chynaliadwyedd	
Uchelgais a dysgu gydol oes Cymorth hyfforddi, mentora a hyfforddiant i'w weithwyr	Llais rhanbarthol cryfach Twf parhaus yn y personél ym Mhencadlys Gogledd Cymru	Seilwaith modern a chysylltiedig Datblygu cefnogaeth bosibl i ddarpariaeth MIM	Cymru yn y byd Cefnogaeth i welliant parhaus i'r ecosystem fusnes yng Nghymru, gan ddenu busnes newydd fel lle i ddechrau a thyfu
Buddsoddi gyda phwrrpas cymdeithasol			
Mae'r Banc Datblygu yn buddsoddi ar gyfer effaith. Ei bwrpas yw ysgogi datblygiad economaidd gyda buddsoddiad cynaliadwy sy'n cael effaith gadarnhaol trwy gynorthwyo i greu a diogelu swyddi, annog arloesedd a gweithio ochr yn ochr â'r sector mentrau cymdeithasol.			

Ein cynnyrch

Mae'r Banc Datblygu bellach yn rheoli 15 o gronfeydd byw sy'n darparu buddsoddiad sy'n canolbwyntio ar fusnesau bach i ganolig ar draws cylch oes busnes o gyllid sbarduno cyfnod cynnar i gyllid olyniaeth a gweddnewid. Yn ogystal, mae'n gweithredu'r cynllun Cymorth i Brynu - £454m sy'n cefnogi unigolion i brynu cartrefi newydd ledled Cymru. Mae'r Banc Datblygu wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i greu cyfres o gynhyrchion sy'n diwallu anghenion y farchnad yn uniongyrchol. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r Llywodraeth wedi gwneud ymrwymadau o dros £420m i sicrhau bod gan y Banc Datblygu'r sylfeini sy'n angenrheidiol i gael effaith sylweddol ar ddatblygiad economaidd ledled Cymru. Mae gan y Banc Datblygu darged buddsoddi uchelgeisiol o £86m yn 2019/20 a bydd yn parhau i fonitro gweithgarwch i wella a datblygu meysydd newydd sy'n cefnogi busnesau yng Nghymru.

	Cronfa Sbarduno Tech Cymru gwerth £20m Cyllid ecwiti ar gyfer busnesau	
Cronfa Achub ac Ailstrwythuro Cymru £11m Cyllid trothwy ar gyfer BBaCh	Cronfa Busnes Cymru £180.9m Cyllid ecwiti a dyled cyffredinol	Datblygu Eiddo Cymru £30m Cyllid eiddo preswyl
Cronfa Cyd-fuddsoddi Cymru £8m Cyd-fuddsoddi gyda syndicadau Angel	Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru £50m Cyllid ar gyfer prosiectau Twristiaeth strategol	Cronfa Eiddo Masnachol Cymru £55m Ariannu datblygiad gofod masnachol
Cronfa Ynni Lleol £11m Cefnogi prosiectau ynni cymunedol a datgarboneiddio	Cronfeydd Banc Datblygu Cymru	
Cronfa Micro Fenthyciadau Cymru £16.2m Cefnogi anghenion buddsoddi is na £50k	Cronfa Dros Dro BMT £9.5m Buddsoddiad ecwiti ar gyfer busnesau technoleg	Cynllun Cymorth i Brynu Cymru £454m Cefnogi perchentyaeth ar draws Cymru
Cronfa Twf Cyfalaf Cymru £25m Ariannu cyfalaf gweithio tymor byr	Cronfa Safleoedd Segur Cymru £40m Datgloi cyfleoedd datblygu eiddo	Cronfa Benthyciadau Micro Fusnesau Cymru £18m Cefnogi micro fusnesau hyd at £50k
	Cronfa Olyniaeth Rheoli Cymru £25m Ariannu cyfleoedd allbrynu	


Digideiddio

Yn 2019/20 bydd y Banc Datblygu yn dechrau gweithredu ei strategaeth ddigideiddio hirdymor. Bydd y strategaeth hon yn ceisio darparu'r effeithlonrwydd gweithredol gorau yn y dosbarth gyda chyffyrddiad dynol.

Sefydlwyd rhaglen gydweithredol sy'n cyrraedd ei holl adrannau ac sydd wedi nodi cyfres ddiffiniedig o amcanion ar gyfer cyflawni newid sylweddol yn nhirwedd technoleg gwybodaeth y sefydliad.

Yn ganolog i hyn mae gwella'r cynnig i gwsmeriaid trwy borth cyfrif ar-lein. Bydd hyn yn rhoi mynediad amser real i'n cwsmeriaid at eu gwybodaeth buddsoddi. Bydd y Banc Datblygu yn gweithio gydag arbenigwyr trydydd parti i greu llwyfan sy'n diwallu disgwyliadau esblygol cwsmeriaid mewn amgylchedd busnes sy'n symud ar raddfa cynyddol gyflym.

Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen gyrru gwelliannau ac effeithlonrwydd trwy bob agwedd ar brosesau busnes a rheoli data.




Pobl

Rydym yn ymdrechu i fod yn gyflogwr o ddewis. Mae ein gweledigaeth a'n cenhadaeth yn canolbwyntio ar gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru i helpu i adeiladu economi sy'n seiliedig ar sylfeini cryf, er mwyn rhoi hwb i'n diwydiannau yn y dyfodol a grymuso pob un o'n rhanbarthau i ddod yn fwy cynhyrchiol. Ein pwrpas yw helpu i wneud Cymru yn lle gwell i weithio a byw a gwneud busnes.

Yn ystod 2019 bydd ein gweithlu'n cynyddu am y tro cyntaf i dros 200 o weithwyr. Ar hyn o bryd mae dros 22% o'n gweithwyr wedi bod gyda ni am lai na blwyddyn. Mae'n bwysig, wrth i'r sefydliad barhau i dyfu i ddarparu'r cynhyrchion a'r gwasanaethau i gefnogi ystod eang o flaenoriaethau'r Llywodraeth, fod angen i ni sicrhau na chollir yr awyrgylch proffesiynol ond teuluol sydd wedi cyfrannu at ein llwyddiant.

Lleoliad Dechreuwyr Newydd




Er bod gennym y fraint o gyflawni ein cenhadaeth i greu Cymru well, rydym yn cydnabod bod angen i ni gystadlu â'r farchnad ehangach i ddenu a chadw doniau. Byddwn yn gwneud hynny trwy gynnig pecyn gwobrwyo deniadol i weithwyr sy'n cynnwys cyflogau cystadleuol; cyfleoedd datblygu unigol, a gweithio hyblyg.



Bydd strategaeth pobl newydd yn cael ei chyhoeddi yn 2019 a fydd yn nodi ein cynnig fel cyflogwr o ddewis. Bydd yn cydnabod fod ein pobl yn ganolog i bopeth a wnawn ac mai dyma yw ased mwyaf gwerthfawr y sefydliad. Yn ogystal, byddwn yn parhau i ddatblygu ein cymorth hyfforddi drwy gydol 2019 a chyflwyno rhaglen o fentrau sydd â'r nod o wella lles.

Twf yng ngweithwyr y Banc Datblygu



Creu effaith

Mae'r Banc Datblygu yn creu effaith barhaus drwy ei weithgarwch buddsoddi uniongyrchol yn ogystal â'i strategaeth weithredol ehangach. Fel sefydliad ar gyfer Cymru gyfan, mae'n rhaid iddo uchafu ei effaith, gan gefnogi pobl, busnesau a'r amgylchedd yr ydym yn byw ac yn gweithio ynddo. Yn 2019/20 bydd y Banc Datblygu yn gwneud hyn trwy nifer o feysydd prosiect.

Buddsoddi effaith

- Cyflwyno metrigau effaith yn arwain at yr Adroddiad Effaith cyntaf ym mis Ebrill 2020
- Cipio effeithiau ehangach buddsoddiad y Banc Datblygu sy'n cyd-fynd â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy
- Mae meysydd ffocws yn cynnwys arloesedd, datgarboneiddio a chynhyrchiant

Dangosyddion perfformiad allweddol

- Cipio gyrwyr economaidd allweddol gan gynnwys swyddi a grëwyd ac a ddiogelwyd, TSP a nifer y busnesau a gefnogwyd
- Cynnydd blynyddol mewn targedau

Busnes cyfrifol

- Ymrwymiad craidd i'r Banc Datblygu
- Cyhoeddi Strategaeth Busnes Cyfrifol bwrpasol
- Cod Talu'n Brydlon
- Polisi Amgylcheddol
- Cynllun gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth treigl

Gwaith elusennol


- Noddi elusen flynyddol
- Gwirfoddoli cymunedol

Gweithgaredd meincnodi

- Gweithio gyda gwasanaeth meincnodi Cyflogwyr FairPlay / Chwarae Teg
- Aelod o Busnes yn y Gymuned Cymru

Llywodraethu a risg

Mae gan y Banc Datblygu systemau llywodraethu a rheoli risg cadarn sy'n sicrhau monitro clir a rheolaethau lliniaru. Gallai rheoli risgiau yn wael, a methu â nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg mewn modd amserol, gael effaith andwyol ar berfformiad, enw da a hirhoedledd y Grwpiau. Felly mae'r Banc Datblygu yn mabwysiadu proffil rheoli risg haenog fel y dangosir isod.



Cyllideb

Mae datblygiad parhaus y gronfa newydd wedi arwain at gynnydd mewn costau ac incwm yn 2019/20. Mae hyn yn cynnwys sefydlu a chyflwyno Cronfa Micro Fenthyciadau Cymru, Cronfa Eiddo Masnachol Cymru a Chronfa Buddsoddi Twristiaeth Cymru. Mae costau recriwtio a datblygu seilwaith newydd sylweddol wedi'u cynnwys i ddiwallu anghenion gweithredol ac i barhau i adeiladu gallu ac adnoddau'r Banc Datblygu ar gyfer twf yn y dyfodol.

Cymorth i Brynu - Mae Cymru bellach yn symud i'r cam casglu llog. Mae yna oedi rhwng rhoi'r gorau i ffioedd rheoli cronfa a chasglu llog, gan arwain at y golled a ddangosir sy'n cael ei hadennill yn y dyfodol wrth i dderbyniadau casglu llog dyfu.

Disgwylir gwarged cymedrol o 8% yn 2019/20. Mae cronni cronfeydd wrth gefn yn hanfodol er mwyn i'r Banc Datblygu ei gynnal yn ystod y rhagamcanion o amrywiadau mewn ffioedd yn y dyfodol, gofynion seilwaith i ddiwallu anghenion rheoleiddiol a chwsmeriaid yn ogystal â chostau ehangu parhaus gan gynnwys recriwtio.

Mae'r grŵp o endidau sydd wedi'u cynnwys yn yr incwm a'r costau a ragwelir yn cynnwys Banc Datblygu Cymru ccc, Angylion Buddsoddi Cymru Cyf, Dirnad Economi Cymru Cyf, DBW FM Ltd a FW Capital. Nid yw'n cynnwys cyfrifon y cwmnïau cronfeydd dal sydd wedi'u neilltuo.

Rhagolygon incwm	
Cyfanswm yr Incwm a Ragwelir	24,616,114
Costau a ragwelir	
Cyfanswm costau staffio a gweithredol	
Banc Datblygu Cymru ccc	(9,081,887)
Rheoli Cronfeydd Cymru	(7,884,091)
FW Capital	(3,195,695)
CiBC	(2,419,044)
Cyfanswm costau staffio	(22,580,717)
Gwargedion	
Banc Datblygu Cymru ccc	(1,965,117)
Rheoli Cronfeydd Cymru	4,869,769
FW Capital	124,749
CiBC	(994,004)
Cyfanswm balans net gweithredol	2,035,397

Atodiad 1: Dangosyddion perfformiad allweddol

Dangosir y targedau perfformiad allweddol ar draws cyfres cynnyrch Banc Datblygu Cymru isod.

Cronfeydd	Buddsoddi (nifer)	Busnes (nifer)	Cyfanswm Swyddi	Swyddi a grëwyd	Swyddi a ddiogelwyd	Buddsoddi (£m)	TSP (£m)
Benthyciad Microfusnesau Cymru	22	20	121	71	50	0.5	0.3
Micro Fenthyciad Cymru	167	150	729	429	300	3	1.8
Eiddo Cymru II	24	19	182	91	91	18.25	9
Twf Cyfalaf Cymru	10	9	82	14	68	6.75	5
Busnes Cymru	91	73	1,232	533	699	32	56
Olyniaeth Rheoli Cymru	4	4	154	40	114	4	2
Buddsoddiad Hyblyg Cymru	69	42	880	472	408	8.3	7
Safleoedd Segur Cymru	7	6	60	39	21	5.28	1
Angylion Cyd-fuddsoddi Cymru	10	9	67	25	42	1.25	1.25
Sbarduno Technoleg Cymru II	13	13	153	133	20	2	1.2
Eiddo masnachol Cymru	2	1	4	2	2	0.47	0.3
Twristiaeth Cymru	5	5	122	61	61	2	2
Achub ac Ailstrwythuro Cymru	7	6	183	-	183	2.2	-
Ychwanegol	-	18	-	-		-	-
CYFANSWM	431	375	3,969	1,910	2,059	86	87

Atodiad 2: FW Capital

Trosolwg strategol

- **Ariannol** - Cynhyrchu refeniw y gellir ei ddychwelyd i Gymru er budd busnesau Cymru. Yn 2018/19 defnyddiwyd gwargedion FW Capital o £1m i ategu Cronfa Achub ac Ailstrwythuro Cymru.
- **Arbenigedd** - Ehangu cwrpas gweithgarwch buddsoddi'r Grwpiau a chynyddu'r sylfaen wybodaeth ar draws y sefydliad trwy wybodaeth am y farchnad ac arfer gorau'r AYA - y mae FW Capital bellach yn cael ei ddefnyddio ar gyfer rheoli'r Gronfa Olyniaeth yng Nghymru.
- **Codi arian** - Sicrhau a chyflwyno contractau yn llwyddiannus ar ran trydydd partion, gan gynnwys Banc Busnes Prydain, gan wella proffil y Grŵp yn gadarnhaol yn y farchnad ar gyfer codi arian yn y dyfodol.

Blaenoriaethau 2019/20

Mae FW Capital wedi canolbwyntio dros y ddwy flynedd flaenorol ar sefydlu Cronfa Fuddsoddi Pwerdy'r Gogledd yn llwyddiannus, mewn partneriaeth â Banc Busnes Prydain. Yn ogystal, mae wedi parhau i weithredu ei arian ychwanegol gan gynnwys Cronfa Eiddo Gogledd Ddwyrain Lloegr. Yn 19/20 bydd FW Capital yn cynyddu ei ffocws ar nodi a datblygu cyfleoedd ariannu pellach ar gyfer Cronfa gyflenwol i NPIF ar draws rhanbarth Gogledd Lloegr.

Allbynnau targed 2019/20

Cyflenwi buddsoddiad wedi'i dargedu o £29.4m ar draws pedair cronfa fyw.

Cronfeydd	Targed
NPIF- Tees Valley, Cumbria	£12m
Cronfa Eiddo Gogledd Ddwyrain Lloegr	£4m
Cronfa Catalydd Tees Valley	£3m
NPIF - Gogledd Orllewin	£10.4m

Atodiad 3: Dirnad Economi Cymru

Trosolwg strategol

Sefydlwyd Dirnad Economi Cymru gyda'r bwriad o gasglu a dadansoddi data i greu mewnwelediad annibynnol, cadarn a dibynadwy i helpu i ddeall a gwella economi Cymru. Er mwyn cyflawni hyn, sefydlwyd pum amcan strategol:

- Orlhain y cyflenwad, a'r galw am, gyllid ledled Cymru
- Gwella dealltwriaeth o fusnesau bach a chanolig a'u rôl yn economi Cymru
- Creu ffyrdd arloesol o fesur, dehongli ac olrhain data BBaCh
- Nodi a mynd i'r afael â bylchau data ariannol BBaCh Cymru
- Gwella dealltwriaeth o effaith economaidd ehangach Banc Datblygu Cymru

Blaenoriaethau 2019/20

Yn ei ail flwyddyn o weithrediadau, bydd DEC yn cynyddu ei bwyslais wrth ddarparu ffyrdd creadigol ac arloesol o fesur, dehongli ac olrhain data BBaCh, ynghyd â nodi bylchau cyllid BBaCh Cymru. Er mwyn cyflawni hyn, bydd yn ymgysylltu ag ystod ehangach o randdeiliaid a phartneriaid ymchwil i ddefnyddio technegau data newydd i gynhyrchu allbynnau ymchwil mwy hygyrch.

Allbynnau targed 2019/20

Dangosir allbynnau wedi'u targedu gan DEC ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20 isod.

Adroddiadau Chwarterol ar gyllid BBaCh Cymru	3 adroddiad wedi'u cyhoeddi
Adroddiad Blyneddol ar gyllid BBaCh Cymru ac effaith economaidd ehangach y Banc	Cyhoeddi adroddiad diwedd blwyddyn ar gyfer 2018/19
Adroddiadau pwrpasol ar faterion allweddol / amserol sy'n berthnasol i BBaCh Cymru	3 Adroddiadau Pwrpasol - bydd un ohonynt trwy gydweithrediad ymchwil newydd

Atodiad 4: Angylion Buddsoddi Cymru

Trosolwg strategol

Yn dilyn lansio brand Angylion Buddsoddi Cymru a Chronfa Cydfuddsoddi Angylion Cymru yn 2018, mae'r strategaeth ar gyfer 2019/20 yn canolbwyntio ar atgyfnerthu a chyflwyno DPA, ynghyd â gwella'r rhwydwaith buddsoddwyr, gan gynnwys nodi 'buddsoddwyr arweiniol' ar gyfer y Gronfa.

Mae'r rhaglen wedi ail-alinio o'r strategaeth gynhaliol 'buddsoddai' flaenorol i ddull sy'n canolbwyntio ar fuddsoddwyr, gan geisio;

- Meithrin buddsoddwyr profiadol a chynghori ar faterion buddsoddi sylweddol.
- Datblygu newydd-ddyfodiaid i'r sector buddsoddi angel.
- Annog ffurfio syndicadau buddsoddi - nodi ac ymgysylltu â buddsoddwyr 'arweiniol' newydd ar gyfer y Gronfa.
- Cynyddu cydweithio â chyllid strategol / partneriaid ecwiti ar brosiectau dethol

Cronfa Angylion Cyd-fuddsoddi Cymru


Lansiwyd Cronfa Angylion Cyd-fuddsoddi gan y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn 2018 ac ar hyn o bryd mae ganddi 4 o'fuddsoddwyr arweiniol' cofrestredig i gyflwyno cyfleoedd buddsoddi ar gyfer arian cyfatebol. Cefnogodd y gronfa 3 phrosiect gydag arian cyfatebol o £472k yn 2018/19. Rhagwelir y bydd 2019/20 ar y trywydd iawn i fuddsoddi dros £1m o 'arian cyfatebol' ar gyfer prosiectau cymeradwy yn ystod y flwyddyn ariannol.

Dangosyddion perfformiad allweddol 2019/20

Dangosir allbynnau wedi'u targedu gan Angylion Buddsoddi Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20 isod.

Dangosyddion Perfformiad	Targed
Buddsoddiad wedi'i hwyluso	£3m
Cydfuddsoddiad Angel	£1.25m
Buddsoddwyr newydd wedi'u cofrestru	40
Buddsoddwyr arweiniol	4

Atodiad 5: Trosolwg strategol Banc Datblygu Cymru



Beth ydyn ni am ei gyflawni?

Sut fyddwn ni'n ei gyflawni?



BANC DATBLYGU CYMRU
DEVELOPMENT BANK OF WALES

bancdatblygu.cymru
0800 587 4140

Banc Datblygu Cymru ccc (Development Bank of Wales Plc) yw cwmni daliannol Grŵp sy'n masnachu fel Datblygu Banc Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys nifer o is-gwmnïau sydd wedi'u cofrestru gydag enwau gan gynnwys y llythrennau cyntaf BDC. Cwmni datblygu yw Banc Datblygu Cymru ccc sy'n eiddo i Weinidogion Cymru yn gyfan gwbl ac nid yw wedi'i awdurdodi na'i reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (ARhD) na'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (AYA). Mae gan Banc Datblygu Cymru dri is-gwmni sydd wedi'u hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr ARhD. Sylwer nad yw Banc Datblygu Cymru ccc nac unrhyw un o'i is-gwmnïau yn sefydliadau bancio nac yn gweithredu fel y cyfryw. Mae hyn yn golygu na all unrhyw un o'r endidau grŵp dderbyn blaendaliadau gan y cyhoedd. Mae siart strwythur cyfreithiol cyflawn ar gyfer Banc Datblygu Cymru ccc ar gael yn Bancdatblygu.cymru



**Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund**